



Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	29 Ebrill 2025
Aelod / Swyddog Arweiniol	Arweinydd
Awdur yr adroddiad	Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Teitl	Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27 - 2028/29 ac adolygiad o Gadernid a Chynaliadwyedd Ariannol y Cyngor.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n weddill yn ymwneud â chyllideb 2025/26, yn gosod y cefndir ar gyfer pennu'r gyllideb yn y tymor canolig (2026/27 – 2028/29), ac yn diweddarau'r hunanasesiad o lefel bresennol y Cyngor o gadernid a chynaliadwyedd ariannol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar

- fersiwn derfynol y traciwr arbedion ar gyfer 2024/25.
- materion sy'n weddill yn ymwneud â chyllideb 2025/26.
- y strategaeth gyllidebol arfaethedig i bennu'r gyllideb ar gyfer 2026/27 fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC).
- rhagamcanion ariannol lefel uchel ar gyfer y cyfnod 3 blynedd 2026/27 i 2028/29 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), a
- hunanasesiad o gadernid a chynaliadwyedd ariannol y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried, cymeradwyo ac yn rhoi adborth ar y diweddariadau a restrir yn 2.1 uchod.

4. Manylion yr adroddiad

Fersiwn derfynol traciwr arbedion 2024/25 - Atodiad 1

- 4.1.** Mae fersiwn derfynol o dracwyr arbedion 2024/25 wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r sefyllfa gyffredinol ar gyfer Cynnig Arbedion Mawr a'r Arbedion heb fod yn Strategol ac yn dangos fod 82% a 92% wedi'u cyflawni yn y drefn yma.

Y wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa gosod y gyllideb 2025/26.

- 4.2. Gosododd y Cyngor y gyllideb a Threth y Cyngor ar gyfer 2025/26 ar 20 Chwefror 2025 yn seiliedig ar Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol. Derbyniwyd Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2025/26 yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac mae wedi arwain at gynnydd bychan iawn mewn cyllid o £29,659. Mae'r swm wedi'i ychwanegu at y gyllideb wrth gefn o fewn y gyllideb gorfforaethol.

Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 – 2028/29 – Atodiadau 2 a 3

- 4.3. Mae Atodiad 2 yn nodi'r rhagamcanion cyllideb cyfredol ar gyfer 2026/27 – 2028/29 ynghyd â'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhagamcanion. Ar y cam hwn ym mhroses y gyllideb mae'r CATC yn dangos amcangyfrifon lefel uchel o bwysau hysbys ynghyd ag effaith cynnydd a amcangyfrifir yn Nhreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tabl yn cynnwys ystod o ragdybiaethau i ddarparu amcangyfrifon isel, canolig ac uchel o gostau ar gyfer pob pwysau, gan ddangos ansicrwydd y ffigurau a faint o waith sydd angen ei wneud o hyd i fireinio'r rhagamcanion hyn.
- 4.4. Atodiad 3 yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) sy'n nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o'r problemau ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.
- 4.5. Dyma gylch cyntaf y SATC 2026/27 – 2028/29 ac mae wedi'i lunio gyda'r data a'r wybodaeth oedd ar gael erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae'r ddogfen yn fersiwn gynnar, a bydd yn cael ei mireinio wrth i flwyddyn ariannol 2025/26 fynd rhagddi. Bydd yn nodi ffrydiau gwaith sydd angen symud ymlaen yn ystod y flwyddyn.

4.6. Mae'r Cyngor wedi wynebu her ariannol sylweddol wrth bennu ei gyllidebau diweddaraf, a fydd yn parhau yn y tymor canolig gan nad yw'r cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (rhagdybiaeth weithredol) yn debygol o gyd-fynd â'r cynnydd mewn galw am wasanaethau, yn ogystal â chymhlethdod yr angen amdanynt ac effaith barhaus chwyddiant. Ni ddylid bychanu maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Mae'n anodd rhagweld y pwysau ond maent yn amrywio o £14m i £26m yn 2026/27 gydag ystod ganolig o £21m. Rhagwelir amrediadau tebyg ar gyfer 2027/28 a 2028/29.
- Ni roddodd setliad cyllid 2025/26 gan Lywodraeth Cymru unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol. Mae'r rhagamcanion presennol ar gyfer cyllid yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru'n tybio cynnydd o 1% yn absenoldeb unrhyw arwyddion gan y llywodraeth ac maent yn debyg i ragdybiaethau Cyngorau eraill Cymru.
- Mae'r rhagdybiaethau a wneir ynghylch codiadau Treth y Cyngor yn y CATC yn amrywio o 6% - 12% ar gyfer 2026/27 a chyfartaledd hirdymor o 6.1% wedi hynny ar gyfer y ddwy flynedd, er ei bod yn bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Mae rhagdybiaeth ganolig o gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 9% ar gyfer 2026/27 yn rhoi £7.5m ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond mynd i'r afael ag oddeutu traean o'r bwlch ariannu y mae hyn - mae'r bwlch sy'n weddill yn sylweddol ar £11m.
- Dylai'r Cyngor fod yn bwriadu cymryd camau i leihau'r gwariant net rhagamcanol o tua £21 miliwn yn 2026/27 i bennu cyllideb gytbwys. Mae hynny'n gostwng i tua £11 miliwn pe bai cynnydd o tua 9% yn Nhreth y Cyngor yn cael ei gefnogi a chynnydd mewn cyllid gan LIC.

Hunanasesiad o Gadernid a Chynaliadwyedd Ariannol – Atodiad 4

4.7. Yng nghyfarfod mis Ionawr 2024 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gwnaed cais i brofi straen ar brosesau cyllidebol y Cyngor. Yn benodol, cyfeiriwyd at ganllawiau ac adroddiad a ysgrifennwyd gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth). Mae Atodiad 4 yn ddiweddariad i'r asesiad o sefyllfa'r Cyngor yn erbyn themâu a materion cyffredin a nodwyd gan CIPFA.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fel y nodir yn yr adroddiadau cyllideb hyd yma ar gyfer 2025/26. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol yn dod yn fwy eglur wrth i ni symud strategaeth y gyllideb yn ei blaen.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn esblygu ochr yn ochr â'r cynigion i arbed arian. Caiff Asesiad Llawn o'r Effaith ar Les ei ddatblygu ar gyfer pob cynnig sy'n cael effaith sylweddol er mwyn helpu i ddeall effaith cwtogi'r gwasanaeth ac i ddatblygu mesurau lliniaru posibl. Mae pob asesiad yn cael ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Gwnaed hyn i amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg ac er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Byddai hyn hefyd yn dangos a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Mae hyn wedi'i goladu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol ynghylch effaith mesurau lleihau cyllideb angenrheidiol i ffurfio cydgasgliad lefel uchel o fesurau lleihau cyllideb cyfunol, ac mae'r gwaith hwn yn parhau wrth i gynigion arbedion barhau i gael eu mireinio.

7.2. Caiff proses debyg ei rhoi ar waith wrth bennu cyllideb 2026/27.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fel y nodir yn y SATC, datblygwyd Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y gyllideb er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Tîm Arwain

Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau'r Cyngor, Fforwm
Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr a'n preswylwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae'r adroddiad yn crynhoi ac yn cloi gwaith ar gynllunio ariannol ar gyfer 2025/26, mae'r gwaith bellach yn trosglwyddo i fonitro cyllideb 2025/26. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau drwy'r adroddiad diweddarau cyllid misol i'r Cabinet.
- 9.2. Nod y SATC yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Bydd nodi'r rhagamcanion a'r strategaeth yn fuan yn yr adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai peidio â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posib' eraill yn golygu risg na fyddai cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.
- 10.2. Mae adran fanwl ar risg wedi'i chynnwys yn y SATC yn Atodiad 3.
- 10.3. Mae risgiau o ran capasiti'r tîm Cyllid y mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn gweithio gydag Archwilio Cymru ar yr archwiliad o gyfrifon 2022/23, yn cadarnhau cyfrifon 2023/24, a hefyd ar gau cyfrifon 2024/25 ym mis Ebrill a mis Mai. Fel arfer mae capasiti cyfyngedig iawn ar gyfer unrhyw beth arall heblaw cau'r cyfrifon yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Eleni fodd bynnag, mae cymhlethdod ychwanegol cynhyrchu'r cyfrifon o'r system ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2024.
- 10.4. Mae diweddariadau cyllid misol o'r flwyddyn ariannol newydd fel arfer yn weithredol erbyn mis Mehefin. Mae'n debygol mai mis Gorffennaf eleni fydd hi os bydd y system newydd yn gwneud cynnydd da, ond gallai hyd yn oed fod mor hwyr â mis Medi. Mae hyn yn peri risg i'r Cyngor oherwydd na all adrodd yn llawn ar wariant yn erbyn y gyllideb yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y

flwyddyn ariannol. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, byddwn yn gwneud eithriad ac yn adrodd ar unrhyw feysydd o orwariant sylweddol, yn ogystal ag adrodd ar y traciwr arbedion yn rheolaidd. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Cabinet ar y risgiau hyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.